Llythyr Cylch Gorchwyl CCAUC 2019-20: Atodiad 1: Dyraniadau Diwygiedig (Gorffennaf 2019)

Nodir dyraniadau manwl ar gyfer Llinellau Gwariant Cyllidebol CCAUC ar gyfer 2019-20 isod (£):

	2019-20
Gwariant Refeniw CCAUC	£142,654,500
Dibrisiant CCAUC	£90,000
Gwariant Cyfalaf CCAUC	£10,000,000
Cyfanswm	£152,744,500

Mae gwariant refeniw CCAUC yn uno'r llinellau cyllidebol canlynol a oedd yn eu lle mewn blynyddoedd ariannol blaenorol:

- Er Mwyn Ein Dyfodol;
- Costau rhedeg CCAUC; a
- Derbyniadau CCAUC.

Bellach, cyfrifoldeb y Cyngor yw penderfynu ar lefel y cyllid a ddyrennir i bob llinell wariant. Er hynny, ar ddechrau pob blwyddyn ariannol, rhaid i CCAUC roi amcangyfrif i Lywodraeth Cymru o'r costau rhedeg ac amcangyfrif o'r derbyniadau disgwyliedig ar gyfer y flwyddyn. Bydd rhaid rheoli unrhyw ddiffyg yn y derbyniadau disgwyliedig o fewn dyraniad cyllideb gyffredinol CCAUC, oni bai y cytunwyd fel arall yn ysgrifenedig gyda Llywodraeth Cymru.

Mae Llinellau Gwariant Refeniw Cyllidebol CCAUC yn cynnwys y dyraniadau ychwanegol hyn:

- £5m i helpu i liniaru effaith y penderfyniad i rewi lefel uchaf y ffioedd dysgu;
- £5m i gefnogi cynllun i annog astudiaethau ôl-radd yng Nghymru;
- £5m i gyllido cyflenwi Prentisiaethau Gradd yng Nghymru

Mae darpariaeth wedi'i gwneud o fewn cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer dyrannu adnodd cyfalaf o £10m yn 2019-20 er mwyn cefnogi cynigion gan sefydliadau sy'n hybu defnydd mwy effeithiol o'u hystadau.

Mis Gorffennaf 2019 - y diweddaraf

Mae cyllid ychwanegol o £1,602,500 wedi'i ddyrannu i Linell Gwariant Refeniw CCAUC, fel sy'n cael ei nodi isod:

- £104.5k i gefnogi datblygu rhaglen Arweinyddiaeth Weithredol Addysg Uwch (WHEELP) II ar gyfer Addysg Uwch ac Addysg Bellach;

- £118,000 i ymdopi â'r pwysau ychwanegol sy'n codi o ganlyniad i'r newidiadau i Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil;
- £1.3m i gefnogi cynllun cymhelliannau ôl-radd;
- £0.08m i gefnogi cynllun bwrsari i fyfyrwyr graddau Meistr sy'n 60 oed a throsodd.